# Gwasanaeth Cynghori

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

**08456 000 813**

**Ydych chi'n edrych am ffyrdd o wella perfformiad eich defaid?**

Mae'r Gwasanaeth Cynghori'n darparu cyngor cyfrinachol, pwrpasol ar ystod eang o bynciau a all wella perfformiad eich diadell...

## Cadwch lygad ar effeithlonrwydd dosys rheoli llyngyr ar eich fferm trwy ddefnyddio Profion Lleihau Cyfrif Wyau Ysgarthol (FECRT)

- Adnabod p'un ai ymwrthedd i ddosys rheoli llyngyr yw'r rheswm dros berfformiad gwael cyn ymchwilio i faterion iechyd perthnasol eraill.
- Cynnal effeithiolrwydd dosys rheoli llyngyr ar eich fferm a gwella perfformiad eich ŵyn.
- Derbyn adroddiad manwl sy'n egluro eich canlyniadau ac yn rhoi argymhellion i sicrhau bod eich diadell yn cael y buddion mwyaf posib o'ch triniaethau rheoli llyngyr.

## Gallwch ymgymryd ag archwiliad llawn o'r holl fwynau a gyflenwir i'r ddiadell gydag arbenigwr milfeddygol, a fydd yn…

- Ystyried samplau porthiant, glaswellt a dŵr, yn ogystal â mewnbwn cyfan y ddiadell (porthiant, bwcedi, torthau, dosys rheoli llyngyr a bolysau) drwy'r flwyddyn.
- Ystyried cymarebau mwynol allweddol a chymharu'r cyflenwad ag anghenion eich mamogiaid a'ch ŵyn.
- Adnabod diffyg elfennau hybrin yn ogystal â meysydd o orgyflenwi posibl.
- Paratoi adroddiad manwl sy'n egluro eich canlyniadau ac yn rhoi argymhellion sydd wedi'u teilwra i'ch diadell a'ch fferm.

## Cefnogaeth broffesiynol i wella perfformiad stoc a gwella proffidioldeb

- Ceisiadau unigol wedi'u hariannu hyd at 80%.
- Ceisiadau grŵp wedi'u hariannu'n llawn (rhwng tri ac wyth ymgeisydd).

---

I ddarganfod os ydych chi'n gymwys a phryd gall eich diadell gael ei phrofi, ffoniwch eich swyddog datblygu lleol. Neu, gallwch ffonio Canolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar **08456 000 813** neu ewch i **www.llyw.cymru/cyswlltffermio**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

